COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Local Democracy and Boundary Commission For Wales

# Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Cryno 2013/2014

**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL 2013/2014**

***Rhagair***

Mae'r Adroddiad a gyhoeddir yma yn ymdrin â chyfnod a gynhwysodd ddigwyddiadau arwyddocaol a oedd yn effeithio ar y Comisiwn. Y cyntaf oedd cyhoeddi'r Ddeddf Democratiaeth Leol (Cymru) a ddaeth yn weithredol ym mis Awst 2013. Newidiodd y Ddeddf enw'r Comisiwn, rhoddodd ddulliau gwell i'r Comisiwn ar gyfer ymgymryd ag arolygon a mynnodd fod y Comisiwn yn adolygu trefniadau etholiadau pob Prif Gyngor ar raglen ddeng mlynedd. Yr ail ddigwyddiad oedd penodiad y Gweinidog Cyntaf y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, a gyflwynodd adroddiad ym mis Rhagfyr 2013. Llywodraeth Cymru sydd i ystyried argymhellion yr Adroddiad a bydd effaith ei phenderfyniadau o bwys mawr i waith y Comisiwn; gwnaed addasiadau i waith y Comisiwn mewn cydweithrediad â'r Adran Noddi. Yn ystod y flwyddyn, bu'r Comisiwn yn ymwneud hefyd â chwblhau Arolygon Etholiadol a sicrhau bod ei bolisïau, ei arferion a'i drefniadau llywodraethu yn cael eu gwella.

Bu'r flwyddyn yn flwyddyn o drawsnewid; mae'r Comisiwn yn barod i weithredu ar unrhyw drefniadau llywodraeth leol a fydd yn deillio o benderfyniadau Llywodraeth Cymru.

**Owen Watkin OBE DL**
**Cadeirydd**
**Mehefin 2014**

**CYNNWYS**


**1. CYFLWYNIAD ................................................ 1**

- Y Comisiwn ................................................ 1
- Aelodaeth ................................................ 1
- Yr Ysgrifenyddiaeth ................................................ 2
- Dyletswyddau Statudol ................................................ 2
- Gweithdrefn Arolygon ................................................ 3

**2. AMCANION ................................................ 4**

- Targedau ................................................ 4

**3. GWAITH Y COMISIWN YN YSTOD 2013-14 ................................................ 5**

- Cyfarfodydd ................................................ 5
- Arolygon o Brif Ardaloedd ................................................ 5
- Arolygon Cymunedol ................................................ 5
- Arolygon o Drefniadau Etholiadol ................................................ 5
- Llywodraethu Corfforaethol ................................................ 6
- Cyfarfodydd Eraill ................................................ 6
- Llythyr Cylch Gwaith ................................................ 7

**4. RHEOLAETH GORFFORAETHOL: POLISÏAU AC YMARFER ................................................ 8**

- Dogfen Fframwaith ................................................ 8
- Cyllideb ac Archwiliad ................................................ 8
- Cynllun Iaith Gymraeg ................................................ 9
- Hyfforddiant a Thechnoleg Gwybodaeth ................................................ 9
- Gweithdrefn Gwyno ................................................ 10
- Polisi Cyflogeion ................................................ 10

**5. GWAITH Y COMISIWN YN YSTOD 2014-15 ................................................ 11**

- Arolygon o Drefniadau Etholiadol ................................................ 11
- Arolygon Cymunedol ................................................ 11
- Llywodraethu Corfforaethol ................................................ 11
- Cyfathrebu ................................................ 11
- Caffael ................................................ 11
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ................................................ 12

**6. DATGANIAD ARIANNOL CRYNO ................................................ 13**

# 1. CYFLWYNIAD

## Y Comisiwn

1.1 Mae Comisiwn Ffiniau Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Sefydlwyd y Comisiwn ym 1974 o dan delerau Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ac fe'i ail-enwyd o dan delerau Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013). Mae darpariaethau Deddf 2013 mewn perthynas â'r Comisiwn yn disodli darpariaethau Deddf 1972.

1.2 Diben y Comisiwn yw:

**Monitro'r ardaloedd a'r trefniadau etholiadol sy'n berthnasol i lywodraeth leol yng Nghymru at y diben o ystyried pa un a yw'n briodol gwneud neu argymell newidiadau. Wrth gyflawni ei ddyletswyddau, rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.**

## Aelodaeth

1.3 Bu tri aelod o'r Comisiwn yn gwasanaethu trwy gydol y flwyddyn: Mr Owen Watkins, Mr Ceri Stradling a Mr David Powell. Mr Watkin yw'r Cadeirydd ac mae ei benodiad ar gyfer y cyfnod 15 Mehefin 2012 hyd at 14 Mehefin 2015. Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn yw Mr Ceri Stradling ac mae ei benodiad ef a phenodiad Mr Powell am y cyfnod 1 Ebrill 2012 hyd at 31 Mawrth 2015.

Caiff Pwyllgor Archwilio a Risg y Comisiwn ei gadeirio gan Mr Stradling.

Roedd y Comisiynwyr yn aelodau o gyrff cyhoeddus eraill.

Roedd Mr Watkin yn aelod o Bwyllgor Archwilio Prifysgol Aberystwyth, aelod o Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion, aelod o Gymdeithas y Cerddwyr, aelod o Bwyllgor Cerddwyr Aberystwyth, aelod ac ymddiriedolwr o Gymdeithas Mynyddoedd Cambria, aelod o Is-bwyllgor Dynodiadau'r Gymdeithas, aelod o Dreftadaeth Llandre, cynghorydd anrhydeddus Cronfa Apêl Llifogydd Gogledd Ceredigion, aelod o'r Sefydliad Materion Cymreig, ac aelod o Amnest Rhyngwladol ac aelod o Gymdeithas Bob Owen.

Roedd Mr Stradling yn gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, aelod o Banel Ymgynghorol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, aelod o Gyngor Cynulleidfa Cymru y BBC, Cymrawd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr, aelod o'r gyfadran Rheolaeth Ariannol, aelod o Gymdeithas Cyfrifwyr Siartredig Caer a Gogledd Cymru, aelod o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Nid yw Mr Powell yn aelod o gyrff cyhoeddus eraill.

Aelod Annibynnol Pwyllgor Archwilio'r Comisiwn yw Mrs Julie James ac fe'i penodwyd ar gyfer y cyfnod 1 Medi 2012 hyd at 31 Hydref 2015. Roedd Mrs James hefyd yn Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, Cadeirydd Pwyllgor Cronfeydd Elusennol Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, Cadeirydd Awdurdod Parc

Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cyfarwyddwr Anweithredol Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol a Chymunedau y Pwyllgor Llywodraeth Corfforaethol Cyffredinol, Asesydd Iechyd ar gyfer Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru, aelod o Banel Camymddwyn Heddlu Dyfed Powys, aelod o Fwrdd Ymgynghorol Gofal Canser Marie Curie, Cyfarwyddwr Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol De-orllewin Cymru ac un o Ymddiriedolwyr Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

Archwilydd statudol y Comisiwn yw Archwilydd Cyffredinol Cymru, sydd wedi is-gontractio'r swyddogaeth hon i Grant Thornton.

Mae contractau'n bodoli ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol, cyfreithiol, cyfrifyddiaeth, cyfieithu ac argraffu.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**

1.4 Mae Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn wedi'i lleoli yn Nhŷ Hastings, Fitzalan Court, Caerdydd. Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd yr Ysgrifenyddiaeth yn cynnwys swyddi'r Ysgrifennydd, Dirprwy Ysgrifennydd, Rheolwr Cyllid, Rheolwr Arolygon, tri Swyddog Arolygon a dau Swyddog Cymorth. O 1 Mehefin 2013, gydag Ian Williams yn dychwelyd i Lywodraeth Cymru, daeth y Dirprwy Ysgrifennydd, Mr Steve Halsall, yn Ysgrifennydd Gweithredol. O ganlyniad i Ddeddf 2013 newidiwyd dynodiad swydd yr Ysgrifennydd i Brif Weithredwr. Yn dilyn proses recriwtio, penodwyd Mr Halsall gan Weinidogion Cymru yn Brif Weithredwr o 1 Ionawr 2014. Ym mis Awst, llenwyd swydd wag y Swyddog Arolygon.

1.5 Yn dilyn ymadawiad Mr Williams, trosglwyddwyd dynodiad Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Comisiwn i Mr Halsall o 1 Hydref 2013.

1.6 O 1 Ionawr 2002, mae Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn hefyd wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb o ddarparu gwasanaeth Ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer ei Arolygon o'r etholaethau Seneddol yng Nghymru. Adran noddi'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yw Swyddfa'r Cabinet. O ganlyniad i Ddeddf 2013, diwygiwyd newidiadau i'r trefniant ariannu a'r cytundeb i benodi Prif Weithredwr ar y cyd, y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Comisiynau a'u hadrannau noddi priodol.

**Dyletswyddau Statudol**

1.7 Prif ddyletswydd y Comisiwn yw monitro'r ardaloedd a'r trefniadau etholiadol sy'n berthnasol i lywodraeth leol yng Nghymru at ddiben ystyried a yw'n briodol gwneud neu argymell newidiadau. I gyflawni'r ddyletswydd honno, mae'r Comisiwn yn cynnal arolygon yn ôl y gofyn. Wrth gynnal arolygon, mae'n rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

**Ffiniau Prif Ardaloedd**

i) Caiff y Comisiwn, o'i wirfodd neu ar gais gan awdurdod lleol, gynnal arolwg o un neu ragor o brif ardaloedd.

ii) Y newidiadau y caiff y Comisiwn eu hargymell yw:

a) Y newidiadau hynny i ffin prif ardal y mae o'r farn eu bod yn briodol, a

b) o ganlyniad i unrhyw newidiadau i ffin prif ardal, y newidiadau hynny i ffin cymuned, newidiadau i sir wedi ei chadw, newidiadau i gyngor cymuned neu drefniadau etholiadol y mae o'r farn eu bod yn briodol.

**Ffiniau Cymunedau**

iii) O dan amgylchiadau penodol a gynhwysir yn y ddeddfwriaeth gall y Comisiwn gynnal arolwg o un neu fwy o gymunedau mewn prif ardal.

iv) Y newidiadau y caiff y Comisiwn eu hargymell yw:

a) Y newidiadau hynny i ffiniau cymuned y mae o'r farn eu bod yn briodol, a

b) o ganlyniad i unrhyw newidiadau i ffiniau cymuned, y newidiadau hynny i gyngor cymuned a newidiadau cysylltiedig i drefniadau etholiadol y gymuned neu'r cymunedau sydd dan adolygiad a'r brif ardal y mae o'r farn eu bod yn briodol.

**Siroedd wedi eu Cadw**

v) Caiff y Comisiwn gynnal arolwg o un neu ragor o siroedd wedi eu cadw a gall argymell y newidiadau hynny y mae o'r farn eu bod yn briodol.

**Trefniadau Etholiadol Prif Ardal**

vi) Rhaid i'r Comisiwn gynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif ardal o leiaf unwaith bob 10 mlynedd a rhaid iddo gyhoeddi rhaglen sy'n amlygu'r amserlen ar gyfer yr arolygon.

vii) Y newidiadau y caiff y Comisiwn eu hargymell yw:

a) Y newidiadau hynny i'r trefniadau etholiadol ar gyfer y brif ardal y mae o'r farn eu bod yn briodol, a

b) o ganlyniad i newidiadau i drefniadau etholiadol, y newidiadau hynny i ffiniau cymuned, newidiadau i gyngor cymuned, newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer cymuned a newidiadau i sir wedi ei chadw y mae o'r farn eu bod yn briodol.

**Gweithdrefn Arolygon**

1.8 Mae Pennod 4 Deddf 2013 yn pennu'r canllawiau gweithdrefnol sydd i'w dilyn wrth ymgymryd â phob arolwg. Camau sylfaenol arolwg yw:

i) Cyhoeddi dyddiad dechrau'r arolwg pan wahoddir awgrymiadau a sylwadau cychwynnol erbyn dyddiad penodol;

ii) Cyhoeddi cynigion drafft y Comisiwn pan wahoddir sylwadau arnynt yn yr un modd erbyn dyddiad penodol; a

iii) Chyhoeddi cynigion terfynol lle y mae'n rhaid anfon unrhyw sylwadau pellach ar ôl hyn at Lywodraeth Cymru.

## 2 AMCANION

2.1 Corff statudol a noddir gan Is-adran Democratiaeth, Moeseg a Phartneriaethau Llywodraeth Cymru yw'r Comisiwn. Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae'r Comisiwn yn cael llythyr cylch gwaith blynyddol sy'n amlinellu blaenoriaethau'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar gyfer y Comisiwn am y flwyddyn sydd i ddod. Mae'n rhaid i'r Comisiwn hefyd ddilyn y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau statudol fel y'u hamlinellir mewn deddfwriaeth. Prif swyddogaeth statudol y Comisiwn yw gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ar gyfer gwneud newidiadau i ffiniau llywodraeth leol a threfniadau etholiadol llywodraeth leol sy'n ceisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

2.2 Mae'r Comisiwn yn destun Adolygiadau Polisi cyfnodol sy'n darparu canllawiau strategol a pholisi tymor canolig ar gyfer cynlluniau blynyddol y Comisiwn. Cynhaliwyd yr Adolygiad Polisi diwethaf o'r Comisiwn gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2008. Ym mis Rhagfyr 2010, cyhoeddodd y Gweinidog y byddai Adolygiad Annibynnol o'r Comisiwn (Adolygiad Mathias) yn cael ei gynnal. Gwnaeth Adolygiad Mathias nifer o argymhellion i'r Comisiwn a Llywodraeth Cymru. Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, gwnaeth y Comisiwn nifer o welliannau i'w weithrediad er mwyn bodloni argymhellion Mathias. Mae llawer o ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Mathias. Ym mis Rhagfyr 2013, dywedodd Lesley Griffiths, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, ei bod hi o'r farn bod y Comisiwn mewn sefyllfa dda erbyn hyn i gyflawni ei rôl bwysig yn helpu sicrhau tegwch mewn democratiaeth leol ac nad oedd, felly, yn bwriadu darparu unrhyw ymatebion pellach i adolygiad Mathias.

### Targedau

2.3 Caiff y gweithdrefnau sydd i'w dilyn wrth gynnal arolwg eu diffinio yn ôl statud, sy'n golygu ei bod yn ofynnol i'r Comisiwn hysbysu ac ymgynghori'n eang ac ystyried sylwadau cyn gwneud unrhyw gynigion terfynol i Lywodraeth Cymru.

2.4 Yn y ddeddfwriaeth, diffinnir y cyfnod ar gyfer sylwadau fel cyfnod nid llai na 6 wythnos, na mwy na 12 wythnos. Gosodir targedau o fewn cyfnod arolwg ar gyfer y camau cyhoeddusrwydd ac ymgynghori, cynhyrchu adroddiadau drafft a therfynol a'r amser sydd ei angen i asesu'r materion dan sylw.

2.5 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn darparu ar gyfer rhaglen deng mlynedd o arolygon etholiadol. Bydd hyn yn rhoi targedau tymor hir eglur i'r Comisiwn a'i randdeiliaid ar gyfer yr arolygon hyn.

## 3. GWAITH Y COMISIWN YN YSTOD 2013-14

### Cyfarfodydd

3.1 Mae gan y Comisiwn raglen o gyfarfodydd misol. Cynhaliwyd deuddeg cyfarfod o'r Comisiwn a phedwar cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio yn ystod 2013-14. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd â'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ym mis Tachwedd 2013.

### Arolygon o Brif Ardaloedd

3.2 Nid ymgymerodd y Comisiwn ag unrhyw arolygon o ffiniau rhwng prif awdurdodau yn ystod y flwyddyn.

### Arolygon Cymunedol

3.3 Ar ôl gweithredu Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, aeth y Comisiwn ati i ddiweddaru ei lyfryn Arweiniad ar Arolygon Cymunedol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013.

### Arolygon o Drefniadau Etholiadol

3.4 Cyhoeddodd y Comisiwn ei Gynigion Drafft ar gyfer yr arolwg pellach o Sir Ddinbych ym mis Mai 2013, a chwblhaodd yr arolwg drwy gyhoeddi Cynigion Terfynol ar 1 Awst 2013.

3.5 Cyhoeddodd y Comisiwn ei Gynigion Drafft ar gyfer yr arolwg o Sir Benfro ym mis Gorffennaf 2013.

3.6 Cyhoeddodd y Comisiwn ei Gynigion Terfynol ar gyfer Sir Gaerfyrddin ym mis Tachwedd 2013.

3.7 Ar ôl cyhoeddi'r Gorchymyn a weithredodd newidiadau i ffiniau cymunedol a threfniadau etholiadol ym Mwrdeistref Sirol Torfaen, ailgychwynnodd gwaith ar yr arolwg etholiadol. Cyhoeddodd y Comisiwn ei Gynigion Terfynol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Torfaen ym mis Rhagfyr 2013.

3.8 Ar ôl gweithredu Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, cyflwynodd y Comisiwn raglen ddeng mlynedd o arolygon etholiadol i'r Gweinidog, a chyhoeddwyd hwn ym mis Medi 2013.

3.9 Yn dilyn ymgynghori pellach ar y fethodoleg briodol ar gyfer asesu nifer y cynghorwyr ar gyfer pob awdurdod a chan weithio gydag Uned Ddata Cymru, cyhoeddwyd Polisi Meintiau Cynghorau ym mis Tachwedd 2013.

3.10 Diweddarwyd dogfen arweiniad y Comisiwn 'Arolygon Etholiadol: Polisi ac Ymarfer' i ymgorffori'r Polisi Meintiau Cynghorau a chyhoeddwyd dogfen ddiwygiedig ym mis Ionawr 2014.

3.11 Cyflwynodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus adroddiad i'r Prif Weinidog ar 20 Ionawr 2014 yn argymell newid i gyfansoddiad a gweithrediad 22 o Brif Gynghorau Cymru. Er mwyn osgoi unrhyw waith diwerth, tra'n disgwyl ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adroddiad a'r Argymhellion, ataliwyd y rhaglen arolygon etholiadol.

## Llywodraethu Corfforaethol

3.12 Aeth y Prif Weithredwr ati bob chwarter i asesu prosesau'r Comisiwn ar gyfer cynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu.

3.13 Rhoddwyd system adrodd ariannol ar waith sy'n cynnwys:
- Adroddiadau misol ar y gyllideb wedi'u cymeradwyo gan y Prif Weithredwr;
- Prosesau diwedd y mis wedi'u cymeradwyo gan y Prif Weithredwr;
- Gwirio Cofrestrau Asedau Sefydlog; ac
- Adroddiad ar y gyllideb i bob cyfarfod o'r Comisiwn.

3.14 Adolygwyd a diwygiwyd y Polisi Rheoli Risg ym mis Mai 2013. Aseswyd Risgiau Gweithredol mewn cyfarfodydd Tîm a Rheolwyr a, lle bo'r angen, cawsant eu cynnwys yn y Risgiau Corfforaethol a ystyriwyd ym mhob cyfarfod o'r Comisiwn. Bu'r Pwyllgor Archwilio yn asesu'r gweithdrefnau asesu risg yn rheolaidd. Roedd eitem ar Reoli Risg yn cael ei hystyried ym mhob cyfarfod o'r Comisiwn. Rhoddodd yr archwiliad mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn sicrwydd sylweddol ar gyfer trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg y Comisiwn.

3.15 Yn dilyn y ddarpariaeth yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 i'r Comisiwn gael ei gynnwys o fewn cwmpas yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, adolygwyd a diwygiwyd y Weithdrefn Gwyno ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Hydref 2013.

3.16 Ffurfiwyd a chytunwyd ar Gynllun Gweithredu Amrywiaeth i annog amrywiaeth ehangach o ymgeiswyr ar gyfer recriwtio Comisiynwyr yn y dyfodol, ac fe'i cyflwynwyd i'r Gweinidog ym mis Gorffennaf 2013.

3.17 Mae codau a pholisïau eraill a gafodd eu hadolygu a'u diwygio yn ystod y flwyddyn yn cynnwys: Y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Polisi Amgylcheddol, Cylch Gorchwyl Cyfarfodydd y Comisiwn, Polisi Chwythu'r Chwiban, a'r Polisi Rhoddion a Lletygarwch. Cytunwyd ar Strategaeth TG yn ogystal.

3.18 Parhaodd y Comisiwn â'i waith o'r flwyddyn flaenorol i gryfhau ei gysylltiadau â rhanddeiliaid a chafodd ei strategaeth gyfathrebu ei hadolygu a'i gwella ymhellach. Parhawyd i ddatblygu'r wefan ac mae'r Comisiwn wedi sefydlu presenoldeb ar Twitter a Facebook.

## Cyfarfodydd Eraill

3.19 Yn ystod y flwyddyn cynhaliodd cynrychiolwyr y Comisiwn gyfarfodydd gyda Leslie Griffiths AC (y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth), Meri Huws (Comisiynydd y Gymraeg), Syr Paul Williams (y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus), Glyn Mathias, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, Cymdeithas Cynghorau Cymuned Mwy Canolbarth a Gogledd Cymru, Un Llais Cymru, yr Arolwg Ordnans, Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru a nifer o brif gynghorau. Fe wnaethom gyfarfod hefyd â chydweithwyr o Gomisiynau Ffiniau eraill y DU a'r South African Municipal Demarcation Board.

## Llythyr Cylch Gorchwyl

3.20 Mae llythyr cylch gorchwyl y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth dyddiedig 4 Mawrth 2014 (atodiad i 17 Ebrill 2014) yn amlinellu rôl y Comisiwn o ran agenda strategol Llywodraeth Cymru a'r hyn y disgwylir i'r Comisiwn ei gyflawni er mwyn helpu'r Llywodraeth i gyrraedd ei nodau. Gosododd y llythyr cylch gorchwyl yr amcanion penodol canlynol i'r Comisiwn ar gyfer 2014-15:

- Parhau i ymgymryd â gwaith ar unrhyw arolwg cymunedol a gyflwynir i'r Comisiwn gan Brif Gynghorau.
- Adolygu polisïau ac arferion y Comisiwn wrth baratoi ar gyfer unrhyw waith sy'n deillio o adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Adrodd ar gamau a gymerwyd i gynyddu amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus.
- Prif ffrydio'r Gymraeg.
- Sicrhau gwerth am arian wrth gynnal pob busnes.
- Cydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol, gan gynnwys asesu effeithiau ar gydraddoldeb.
- Bod yn ystyriol o ddatblygu cynaliadwy wrth gynnal arolygon.

Mae'r gweithgareddau a fydd yn cyflawni'r amcanion yn y meysydd hyn yn ystod y deuddeg mis nesaf wedi'u cynnwys yn Adran 5, Gwaith y Comisiwn yn ystod 2014-15.

# 4. RHEOLAETH GORFFORAETHOL: POLISÏAU AC YMARFER

## Dogfen Fframwaith

4.1 Mae'r Ddogfen Fframwaith yn disgrifio'r berthynas rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru ac mae'n mynnu bod Cynlluniau Gweithredol Blynyddol, Cynlluniau Corfforaethol ac Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru at ddibenion cynllunio, cyllidebu ac asesu perfformiad. Caiff cyfarfodydd cyswllt chwarterol eu cynnal gydag isadran nawdd Llywodraeth Cymru. Mae'r Comisiwn hefyd yn cyfarfod â'r Gweinidog unwaith y flwyddyn i drafod cynnydd.

4.2 Mabwysiadwyd Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol a chyhoeddir Cofrestr o fuddiannau ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol y Comisiynwyr ar wefan y Comisiwn (www.cffdl-cymru.gov.uk). Ceir cod ymddygiad ar gyfer staff y Comisiwn hefyd.

4.3 Mae'r Comisiwn wedi penodi Pwyllgor Archwilio, a gadeirir gan aelod o'r Comisiwn. Mae'r Comisiwn yn penodi aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio.

4.4 Mabwysiadwyd arferion gwaith sy'n cydsynio ag egwyddorion gonestrwydd, ymgynghori a chymwynasgarwch. Er enghraifft, mae'r Comisiwn yn rhoi cyhoeddusrwydd eang i'w fwriad o gynnal pob arolwg ac ysgrifennu at yr awdurdod lleol dan sylw, ac ymweld ag ef, i drafod yr arolwg a gwahodd ei sylwadau cychwynnol. Ar gyfer pob arolwg, mae'r Comisiwn yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg ar ei gynigion drafft a'i gynigion terfynol a darperir digon o gopïau o'r adroddiadau i alluogi iddynt gael eu dosbarthu am ddim i bob aelod o'r prif gynghorau a'r cynghorau cymuned y mae'r cynigion yn effeithio arnynt, a llyfrgelloedd lleol. Mae nifer o gopïau ar gael hefyd i drigolion lleol ar gais. Mae gwefan y Comisiwn: www.cffdl-cymru.gov.uk yn rhoi gwybodaeth am y Comisiwn, cynnydd yr arolygon a chyfle i weld adroddiadau.

4.5 Ar gyfer pob arolwg, penodir un o'r Comisiynwyr yn Gomisiynydd Arweiniol ar gyfer yr arolwg hwnnw. Rôl y Comisiynydd Arweiniol yw annog cynghorau i ymgysylltu â'r broses ar lefel uchel trwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb ag uwch aelodau a staff lle y bo'n briodol trwy gydol y broses arolygu.

## Cyllideb ac Archwiliad

4.6 Y gwariant net am y flwyddyn oedd £456,359 (2012-13; £489,932) ac mae hwn wedi'i drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn gyffredinol. Cyfanswm y cymorth grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru oedd £508,169 (2012-13; £519,735) ac mae hwn wedi'i gredydu'n uniongyrchol i'r gronfa wrth gefn gyffredinol.

4.7 Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gyflawni gwerth am arian wrth brynu nwyddau a gwasanaethau. Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian, mae cyfres gynhwysfawr o gyfarwyddiadau desg sy'n ymwneud â systemau a gweithdrefnau mewn grym. Archwilwyr mewnol y Comisiwn oedd Deloitte LLP. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cynnal yr archwiliad allanol o gyllid y Comisiwn ac nid oedd yr adroddiad dilynol yn cynnwys cafeat nac amodau.

**Cynllun Iaith Gymraeg**

4.8 Mae gan y Comisiwn Gynllun Iaith Gymraeg, sy'n amlinellu, mewn mesurau manwl, ymrwymiad y Comisiwn i'r egwyddor, wrth gynnal ei fusnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Diwygiwyd y Cynllun ym mis Ionawr 2014 i ystyried goblygiadau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a newidiadau sefydliadol yn y Comisiwn. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cymeradwyo'r Cynllun diwygiedig. Darperir copi o'r Cynllun llawn ar gais neu gellir ei weld ar wefan ddwyieithog y Comisiwn.

4.9 Mae Cadeirydd y Comisiwn yn siaradwr Cymraeg rhugl, ac mae'r Comisiwn wedi'i benodi yn Hyrwyddwr y Gymraeg. Mae ganddo gylch gwaith agored i weithio gyda staff y Comisiwn i gynyddu a gwella ein defnydd o'r Gymraeg. Prif Weithredwr y Comisiwn sy'n rheoli'r holl bolisïau a mentrau newydd yn bersonol, ac ef yw swyddog monitro'r Cynllun.

4.10 Ymwelodd Comisiynydd y Gymraeg â swyddfeydd y Comisiwn yn ystod mis Tachwedd 2013 i drafod y diwygiad arfaethedig i Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn a gweithredu Safonau'r Iaith Gymraeg. Yn ogystal, ymwelwyd â'r swyddfa gan Uwch Swyddog Cynghori a Chyfathrebu y Comisiynydd Iaith yn ystod mis Chwefror 2014 i drafod cyfrifoldeb Comisiynydd y Gymraeg am gynghori ar ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymraeg. O ganlyniad i'r drafodaeth hon, bydd y Comisiwn o hyn ymlaen yn mynd at Gomisiynydd y Gymraeg fel rhan o'i broses ymgynghori ynglŷn ag arolygon.

4.11 Cyhoeddwyd holl gyhoeddiadau a gohebiaeth y Comisiwn naill ai'n ddwyieithog neu gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd. Roedd modd cael gafael ar gyhoeddiadau ar wahân yr un mor rhwydd â'i gilydd (ar ffurf copi papur ac ar wefan y Comisiwn), ac roeddent o'r un safon, yr un fformat a rhoddwyd yr un amlygrwydd iddynt.

4.12 Hysbysebwyd tair swydd gan y Comisiwn yn ystod 2013/14: hysbysebwyd bod y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer un swydd, a bod y Gymraeg yn ddymunol ar gyfer un swydd. Llenwyd un swydd (33% o'r penodiadau) gan siaradwr Cymraeg. Mae dau (22%) aelod amser llawn o Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn siaradwyr Cymraeg ac maent ar gael i: ateb ymholiadau gan gydweithwyr ynglŷn â'r Gymraeg; ateb ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg; a sicrhau ansawdd cyhoeddiadau Cymraeg.

**Hyfforddiant a Thechnoleg Gwybodaeth**

4.13 Mae cyrsiau hyfforddi hanfodol y mae'n ofynnol i aelodau staff eu mynychu wedi parhau eleni ac yn cynnwys: Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion, ac Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol. Roedd aelodau staff sy'n gyfrifol am ddiweddaru gwefan y Comisiwn wedi dilyn cwrs rheoli cynnwys gwefan. Yn ogystal, mae'r Comisiwn wedi cefnogi hyfforddiant datblygiad staff ac mae'r cyrsiau a ddilynwyd yn cynnwys '7 o Arferion Pobl Hynod Effeithiol' ac Ysgrifennu Adroddiadau. Mae tri aelod o staff wedi dechrau Rhaglen Arweinyddiaeth (Cultivar) Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd cyflwyniad i dechnegau LEAN i bob aelod o staff a dilynwyd hynny gan weithdy i gymhwyso'r technegau a ddysgwyd yn y broses arolygon. Nodwyd nifer o gamau gweithredu ac mae'r rhain naill ai wedi'u rhoi ar

waith neu bwriedir gwneud hynny yn ystod y flwyddyn i ddod. Mynychodd pob aelod o staff gwrs Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau Lefel 1 ac mae trefniadau wedi'u gwneud iddynt ddilyn cyrsiau Lefel 2 a Lefel 3 yn ystod y flwyddyn nesaf. Derbyniodd Swyddog Arolygon newydd hyfforddiant penodol i'r swydd megis Cyflwyniad i MapInfo Professional, a threfnwyd a chefnogwyd hyfforddiant mewnol. Rhoddwyd hyfforddiant yn y Gymraeg ar sail anffurfiol i staff nad ydynt yn siarad Cymraeg, i'w helpu i ynganu enwau lleoedd Cymraeg yn well.

4.14 Mae'r Comisiwn yn rhan o gynghrair AtoS Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r rhan fwyaf o ofynion TG y Comisiwn, o ran caledwedd a meddalwedd. Ar ôl mabwysiadu strategaeth TG, mae nifer o welliannau wedi'u gwneud i systemau TG y Comisiwn.

**Gweithdrefn Gwyno**

4.15 Mae gan y Comisiwn Weithdrefn Gwyno a gellir gwneud cwynion (trwy lythyr, e-bost neu dros y ffôn) trwy gysylltu â'r Comisiwn. Gellir cael gwybodaeth am y modd yr ymdrinnir â chwynion yn nogfen Gweithdrefn Gwyno'r Comisiwn sydd ar wefan y Comisiwn (www.cffdl-cymru.gov.uk) neu gellir cael copi o'r ddogfen gan y Comisiwn yn y cyfeiriad isod. Fel y nodwyd yn 3.15 uchod, mae'r Comisiwn bellach yn dod o fewn cylch gorchwyl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac mae'r Weithdrefn Gwyno wedi'i diwygio'n unol â hynny.

**Polisi Cyflogeion**

4.16 Ar ddiwedd mis Mawrth 2014, roedd staff y Comisiwn yn cynnwys y Prif Weithredwr, Rheolwr Cyllid, Rheolwr Arolygon, pedwar Swyddog Arolygon, Cynorthwy-ydd Arolygon a Chynorthwy-ydd Swyddfa, gyda swydd y Dirprwy Brif Weithredwr yn wag. Mae'r Comisiwn yn cynnal craidd o staff a gyflogir yn uniongyrchol y mae eu bandiau cyflog a'u telerau ac amodau gwasanaeth yn gyfatebol i staff Llywodraeth Cymru o'r un graddau.

Pennir gofynion staffio dros y lefel graidd hon gan gylchoedd arolygu awdurdodau lleol a seneddol, a'u llwythi gwaith, a chânt eu bodloni drwy gyflogi staff ar secondiad mewnol o adrannau llywodraethol eraill ar gyfer tymor sefydlog o naill ai 2 neu 3 blynedd. Mae aelodau staff sydd ar secondiad o adrannau llywodraethol eraill yn parhau i fod ar yr un graddfeydd cyflog ac i fod â'r un telerau ac amodau â'u rhiant-adran tra eu bod wedi'u cyflogi gan y Comisiwn.

Mae gan y Comisiwn ystod eang o bolisïau sy'n adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol, a'u nod yw sicrhau y caiff staff eu cadw a'u symbylu.

**Polisi Gwybodaeth**

4.17 Mae'r Comisiwn yn trefnu bod cymaint o wybodaeth ag sy'n ymarferol ar gael i'r cyhoedd drwy ei wefan, ac mae'r wybodaeth hon yn cyfateb yn bennaf i hynny a bennir yn yr arweiniad a gynhwysir yn Nogfen Ddiffinio Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Trefnir bod unrhyw wybodaeth a bennir yn Nogfen Ddiffinio Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth nad yw ar gael yn hawdd ar wefan y Comisiwn, ar gael o wneud cais.

## 5. GWAITH Y COMISIWN YN YSTOD 2014-15

### Arolygon o Drefniadau Etholiadol

5.1 Yng ngolau adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus a thra'n disgwyl ymateb Llywodraeth Cymru, ystyried senarios y dyfodol a gwneud paratoadau ar gyfer newid.

5.2 Adolygu polisïau ac arferion wrth baratoi ar gyfer unrhyw waith yn deillio o adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.

### Arolygon Cymunedol

5.3 Mae adroddiadau arolygon a dderbynnir gan brif gynghorau i'w hystyried a'u prosesu fel bo'n briodol.

5.4 Bydd y Comisiwn yn rhoi cyngor ac arweiniad fel bo'n briodol i brif gynghorau sy'n ymgymryd ag Arolygon Cymunedol.

5.5 Bydd y Comisiwn yn cynnal arolygon ar gais prif gynghorau am ffi i'w chytuno rhwng y ddau barti.

### Llywodraethu Corfforaethol

5.6 Fel rhan o'r broses o baratoi'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, mae'n ofynnol llunio Datganiad Llywodraethu a ategir gan Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg. Bob tri mis, bydd y Prif Weithredwr yn asesu prosesau'r Comisiwn ar gyfer llunio'r Datganiad Llywodraethu.

5.7 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cyfarfod ym mis Gorffennaf a mis Tachwedd yn 2014, ac ym mis Chwefror yn 2015 i fonitro a gwerthuso'r trefniadau cyffredinol ar gyfer llywodraethu a rheoli risg.

5.8 Bydd Risgiau Gweithredol yn cael eu hasesu'n barhaus mewn cyfarfodydd Tîm a Rheolwyr, a lle bo'r angen, byddant yn cael eu cynnwys yn y Risgiau Corfforaethol sydd i'w hystyried ym mhob cyfarfod o'r Comisiwn.

### Cyfathrebu

5.9 Bydd strategaeth gyfathrebu'r Comisiwn yn cael ei hadolygu yng ngolau newidiadau yn deillio o adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.

### Caffael

5.10 Bydd contractau a threfniadau caffael presennol yn cael eu monitro i sicrhau bod gwariant yn rhoi gwerth am arian.

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

5.11 Bydd y camau a gymerir i gynyddu amrywiaeth aelodaeth y Comisiwn yn cael eu hadrodd i'r Gweinidog.

5.12 Bydd effeithiau cydraddoldeb yn cael eu hasesu wrth gytuno ar bolisïau a gweithdrefnau.

**Y Prif Weithredwr**
**Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**
**Tŷ Hastings**
**Fitzalan Court**
**CAERDYDD**
**CF24 0BL**

| | |
|---|---|
| **Ffôn:** | **029 20464819** |
| **Ffacs:** | **029 20464823** |
| **E-bost:** | **cffdl.cymru@cymru.gsi.gov.uk** |
| **Gwefan:** | **www.cffdl-cymru.gov.uk** |

## 6. DATGANIADAU ARIANNOL CRYNO

6.1 Mae’r Datganiad Ariannol hwn yn rhoi crynodeb o gyfrifon y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (y Comisiwn) am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014. Nid yw’n cynnwys gwybodaeth ddigonol i ganiatáu ar gyfer dealltwriaeth lawn o’r canlyniadau a sefyllfa ariannol y Comisiwn. I gael mwy o wybodaeth, dylid edrych ar y cyfrifon blynyddol llawn ac adroddiad yr archwilydd ar y cyfrifon hynny. Mae copi o’r cyfrifon archwiliedig, sy’n cynnwys y wybodaeth fanwl sy’n ofynnol o dan y gyfraith ac o dan ganllawiau arferion gorau, ar gael, yn rhad ac am ddim, oddi wrth y Rheolwr Cyllid, Tŷ Hastings, Fitzalan Court, Caerdydd, CF24 0BL (e-bost: cffdl.cymru@cymru.gsi.gov.uk).

**Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Datganiadau Ariannol Cryno**

Rwyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol cryno sydd wedi eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ar ddatganiadau ariannol statudol fel y nodir isod ar dudalennau 16 i 22.

**Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd**

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Fy nghyfrifoldeb i yw adrodd fy marn ar gysondeb y datganiadau ariannol cryno gyda'r datganiadau ariannol statudol, adroddiad y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu a'r adroddiad tâl. Rwyf wedi darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol hefyd ac yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol cryno.

**Sail fy marn**

Cynheliais fy ngwaith yn unol â Bwletin 2008/3 'Datganiad yr archwilydd ar y datganiadau ariannol cryno' a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio i'w ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig.

**Barn**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol statudol, adroddiad y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu ac adroddiad tâl Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013 ac rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod amdanynt.

Nid wyf wedi ystyried effeithiau unrhyw ddigwyddiadau rhwng y dyddiadau y llofnodais fy adroddiad ar y datganiadau ariannol llawn, sef 5 Awst 2013, a dyddiad y datganiad hwn.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
5 Awst 2013

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd

## COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

### DATGANIAD O WARIANT NET CYNHWYSFAWR
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014**

| | Nodiadau | **2014** | 2013 |
|---|---|---|---|
| | | **£** | £ |
| **COSTAU** | | | |
| Costau staff | 6 | **333,197** | 399,825 |
| Gwariant arall | | **217,468** | 247,703 |
| Incwm | | **(94,306)** | (157,596) |
| **Costau Gweithredol Net** | | **456,359** | 489,932 |
| **GWARIANT CYNHWYSFAWR ARALL** | | | |
| **Cyfanswm Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014** | | **456,359** | 489,932 |

Mae'r holl weithgareddau wedi eu dosbarthu yn rhai parhaus

Mae'r nodiadau ar dudalennau 20 i 22 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

## DATGANIAD O'R SEFYLLFA ARIANNOL
**ar 31 Mawrth 2014**

| | **31 Mawrth 2014** | 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| **ASEDAU NAD YDYNT YN GYFREDOL** | | |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer | **34,908** | 4,210 |
| **Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol** | **34,908** | 4,210 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | **3,042** | 5,387 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | **69,196** | 50,105 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | **72,238** | 55,492 |
| **Cyfanswm asedau** | **107,146** | 59,702 |
| **RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | **(56,361)** | (60,727) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | **(56,361)** | (60,727) |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | **50,785** | (1,025) |
| **ARIANNWYD GAN:** | | |
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | **50,785** | (1,025) |
| | **50,785** | (1,025) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 20 i 22 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol hyn gan y Swyddog Cyfrifyddu i'w cyhoeddi ar 16 Gorffennaf 2014

**STEVE HALSALL**
Swyddog Cyfrifyddu
16 Gorffennaf 2014

# COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

## DATGANIAD LLIFOEDD ARIAN
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014**

| | 2014 | 2013 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| **C Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | |
| Costau gweithredu net | **(456,359)** | (489,932) |
| Addasiadau ar gyfer: | | |
| Lleihad / (Cynnydd) mewn masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | **2,345** | (2,297) |
| Dibrisiant | **9,071** | 2,523 |
| Cynnydd / (Lleihad) mewn taliadau masnach | **(4,366)** | 16,536 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | **(449,309)** | (473,170) |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer | **(39,768)** | (4,940) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | **(39,768)** | (4,940) |
| **Llifoedd arian o weithgareddau ariannu** | | |
| Grantiau gan riant-adrannau | **508,169** | 519,735 |
| **Cyllid net** | | |
| (Lleihad) net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod | **19,091** | 41,625 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod | **50,105** | 8,480 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod | **69,196** | 50,105 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 20 i 22 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

## DATGANIAD O NEWIDIADAU YN ECWITI TRETHDALWYR
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014**

| | Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol* £ |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2012** | (30,828) |
| Newidiadau mewn polisi cyfrifyddu | - |
| **Balans a ailddatganwyd ar 1 Ebrill 2012** | (30,828) |
| | |
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr 2012-13** | |
| Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru | 519,735 |
| Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | (489,932) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2013** | (1,025) |
| | |
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2013-14** | |
| Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru | 508,169 |
| Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | (456,359) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | 50,785 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 20 i 22 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

* ni roddir colofn gyfanswm oherwydd dyma'r unig gronfa wrth gefn sydd gan y Comisiwn.

## 1. DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth 2013-14 (FReM yn seiliedig ar IFRS) a gyhoeddir gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi eu cynnwys yn y FReM yn cymhwyso'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun sector cyhoeddus. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru er mwyn rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru isod. Maent wedi eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

## 2. Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i ystyried ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer, asedau anniriaethol a stocrestrau.

## 3. Gwariant ar Weinyddu a Rhaglenni

Dosberthir cyllid y Comisiwn a dderbynnir oddi wrth Lywodraeth Cymru a Swyddfa'r Cabinet fel cyllid ar gyfer gwariant ar raglenni gan y ddwy Adran. Ystyrir felly mai incwm a gwariant rhaglenni yw'r holl ffigurau incwm a gwariant a ddangosir ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## 4. Canlyniadau Ariannol

Cyfanswm y gwariant net am y flwyddyn oedd £456,359 (2012-13; 489,932) ac mae hwn wedi'i drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn gyffredinol. Cyfanswm y Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru oedd £508,169 (2012-13; £519,735) ac mae hwn wedi'i gredydu'n uniongyrchol i'r gronfa wrth gefn gyffredinol.

## 5. Busnes Gweithredol

Paratoir y cyfrifon hyn ar sail busnes gweithredol. I'r graddau yr wyf yn ymwybodol, bydd y rhwymedigaethau net cyfredol yn cael eu hariannu gan adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn pleidleisio arnynt (Cymorth Grant) yn y dyfodol.

## 6. NIFEROEDD STAFF A CHOSTAU CYSYLLTIEDIG

| | **2014 Staff a gyflogir yn barhaol** | **2014 Secondiadau Mewnol** | **2014 Staff ar Gontract** | **2014 Aelodau'r Comisiwn** | **2014 Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Taliadau a chyflogau** | **187,043** | **62,110** | **-** | **21,955** | **271,108** |
| **Costau nawdd cymdeithasol** | **14,216** | **4,278** | **-** | **647** | **19,141** |
| **Costau pensiwn** | **35,837** | **11,667** | **-** | **-** | **47,504** |
| **Croniad tâl gwyliau** | **(3,417)** | **(1,139)** | **-** | **-** | **(4,556)** |
| **Cyfanswm Costau Net** | **233,679** | **76,916** | **-** | **22,602** | **333,197** |

**Cyfartaledd nifer yr unigolion a gyflogir**
**Cyfartaledd nifer yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl y categorïau hyn oedd:**

| | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **6** | **2** | **0** | **6** | **14** |

Cymariaethau:

| | 2013 Staff a gyflogir yn barhaol | 2013 Secondiadau Mewnol | 2013 Staff ar Gontract | 2013 Aelodau'r Comisiwn | 2013 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Taliadau a chyflogau | 164,208 | 127,536 | 7,037 | 22,167 | 320,948 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 12,464 | 9,498 | - | 829 | 22,791 |
| Costau pensiwn | 31,434 | 24,321 | - | - | 55,755 |
| Croniad tâl gwyliau | 199 | 132 | - | - | 331 |
| Cyfanswm Costau Net | 208,305 | 161,487 | 7,037 | 22,996 | 399,825 |

Cyfartaledd nifer yr unigolion a gyflogir
Cyfartaledd nifer yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl y categorïau hyn oedd:

| | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| | 6 | 4 | 1 | 4 | 15 |

Cyflog Cadeirydd y Comisiwn oedd £7,395 (2012-13: £6,962). Cyflog yr Aelod oedd £5,049 (2012-13: £5,445). Roedd cyflog y Dirprwy Gadeirydd, yr Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio ac Aelodau Comisiwn Ffiniau i Gymru yn llai na £5,000 yr un.

Mae'r costau uchod yn cynnwys £45,000 (2012-13; £81,381) mewn perthynas ag adnoddau staff, a £3,539 mewn perthynas â thâl aelodau a wariwyd ar ran y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Mae'r gostyngiad yng nghostau'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer 2013-14 wedi digwydd o ganlyniad i Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol yn dod i ben yn dilyn Gorchymyn (Cychwyn Rhif 3) 2013 Deddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013.

## 7. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Awdurdodwyd y cyfrifon hyn i'w cyhoeddi ar 16 Gorffennaf 2014 gan y Swyddog Cyfrifyddu. Ar ddyddiad llofnodi'r cyfrifon hyn, nid oedd unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd i'w datgelu.

**STEVE HALSALL**
**Swyddog Cyfrifyddu**
**16 Gorffennaf 2014**